# CYFARFOD ARBENNIG O'R CYNGOR

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, YSTRAD MYNACH DDYDD LLUN 31AIN GORFFENNAF 2017 AM 5.00PM

---

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd J. Bevan – Maer
Y Cynghorydd M. Adams – Dirprwy Faer

Cynghorwyr:

Mrs E. Aldworth, C. Andrews, P.J. Bevan, C. Bezzina, L. Binding, A. Collis, S. Cook C. Cuss, M. Davies, D.T. Davies, C. Elsbury, K. Etheridge, M. Evans, A. Farina-Childs, Ms E. Forehead, J.E. Fussell, A. Gair, Ms J. Gale, N. George, C. Gordon, R.W. Gough, L. Harding, D. Harse, A. Higgs, A. Hussey, M. James, V. James, L. Jeremiah, G. Johnston, Mrs B. Jones, S. Kent, G. Kirby, Mrs A. Leonard, C.P. Mann, Mrs P. Marsden, S. Morgan, Mrs G. Oliver, B. Owen, T. Parry, Mrs L. Phipps, D.V. Poole, D.W.R. Preece, J. Pritchard, J. Ridgewell, J.E. Roberts, Mrs M.E. Sargent, J. Scriven, G. Simmonds, J. Simmonds, S. Skivens, Mss E. Stenner, A. Whitcombe, R. Whiting, T. Williams, B. Zaplatynski

Ar y cyd â:-

C. Burns (Prif Weithredwr Interim), D. Street (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol), N. Scammell (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Dros Dro), C. Harrhy (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau), G. Williams (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro Interim), L. Donovan (Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol Dros Dro), S. Harris (Pennaeth Cyllid Corfforaethol Interim), H. Morgan (Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor)

### 1. FFILMIO AR GYFER GWEDDARLLEDU A THREFNIADAU PLEIDLEISIO

Cafodd y rhai a oedd yn bresennol eu hatgoffa gan y Prif Weithredwr Interim fod y cyfarfod yn cael ei ffilmio ac y byddai ar gael yn fyw i'r cyhoedd ac yn yr archif drwy wefan y Cyngor. Cynghorodd y byddai penderfyniadau'n cael eu gwneud trwy godi dwylo.

### 2. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am eu habsenoldeb gan y Cynghorwyr A. Angel, D. Cushion, W. David, K. Dawson, N. Dix, Mrs C. Forehead, D.T. Hardacre, D. Havard, Ms P. Leonard, B. Miles, Mrs D. Price, R. Saralis, J. Taylor, C. Thomas, L G. Whittle ac W. Williams.

**3.** **DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Nodwyd parthed Eitem Rhif 5 ar yr Agenda (Trefniadau Contract y Prif Weithredwr Interim a Pharhad Trefniadau Rheoli Mewnol), y byddai angen i Chris Burns, Nicole Scammell a Gail Williams ddatgan diddordeb a gadael y cyfarfod. Caiff manylion eu cofnodi gyda'r eitem berthnasol.

**ADRODDIADAU SWYDDOGION**

Ystyriwyd yr adroddiadau canlynol.

**4.** **DATGANIADAU ARIANNOL 2016/17**

Ystyriwyd yr adroddiad a oedd yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo Datganiadau Ariannol archwiliedig 2016/17. Byddai hyn yn sicrhau y gallai Swyddfa Archwilio Cymru gymeradwyo'r cyfrifon erbyn y dyddiad olaf statudol, sef 30ain Medi 2017. Rhoddwyd gwybod i aelodau na all y Cyngor newid unrhyw beth yn y Datganiadau Ariannol, mewn gwirionedd, gan fod angen i'r Archwilydd gymeradwyo unrhyw newidiadau.

Rhoddodd y Pennaeth Cyllid Corfforaethol Interim wybod i Aelodau fod Adroddiad ISA 260 yr Archwilydd Allanol ar yr archwiliad o Ddatganiadau Ariannol 2016/17 wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ar 25ain Gorffennaf 2017. Datganodd adroddiad yr Archwilydd mai bwriad yr Archwilydd Cyffredinol oedd cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar Ddatganiadau Ariannol 2016/17 ar sail y gwaith archwilio a gwblhawyd hyd yn hyn.

Cyfeiriodd Mr Harris yr Aelodau at Atodiad 3 Adroddiad yr Archwilydd, sy'n rhoi manylion camddatganiadau a amlygwyd yn ystod y broses archwilio sydd wedi'u cywiro ers hynny gan reolwyr. Cadarnhaodd nad yw'r addasiadau hyn yn cael unrhyw effaith ar y gweddill arian parod na gweddill y Gronfa Gyffredinol. Mae Datganiadau Ariannol 2016/17 yn cynnwys yr holl gamddatganiadau wedi'u cywiro ac mae Atodiad 4 Adroddiad yr Archwilydd yn cynnwys argymhellion sy'n deillio o waith archwilio ariannol 2016/17 ynghyd ag ymatebion rheolwyr.

Yna, cyfeiriwyd yn benodol at baragraff 12 Adroddiad yr Archwilydd, sy'n rhoi manylion camddatganiad sydd heb ei gywiro, y mae Swyddogion yn ymchwilio ymhellach iddo. Esboniodd Mr Harris fod hwn yn ymwneud â gwaith sy'n mynd rhagddo ar weddillion arian parod yn y cyfrifon a gweddill o £629,000 sy'n cael ei ddal fel eitem gysoni yn y cysoniad banc. Rhagwelir y bydd y gwaith hwn yn cymryd cryn dipyn o amser i'r gwblhau a, phan fydd yr addasiadau cyfrifyddu priodol wedi'u cadarnhau, mae Swyddogion wedi cytuno â'r Archwilydd Allanol y byddant yn cael eu rhoi ar waith yn ystod blwyddyn ariannol 2017/18.

Gofynnwyd am eglurhad ynghylch y camddatganiad hwn a chadarnhawyd ei fod yn gysylltiedig â phroblem a gododd pan drosglwyddodd y Cyngor ei weithgareddau bancio o Fanc y Co-Operative i Fanc Barclays wrth drosglwyddo rhai gweddillion arian parod a buddsoddi gyda Banc Brenhinol yr Alban yn 2013-14. Pan orffennwyd y trosglwyddiad, amlygwyd gwahaniaeth net o £629,000 sydd wedi cael ei ddal fel eitem gysoni yn y cysoniad banc. Mae swyddogion yn ymchwilio i'r mater hwn er mwyn cyfrif yn gywir am y trafodion a'i ddileu fel eitem gysoni barhaus. Bydd adroddiad ar ganlyniad y gwaith sy'n mynd rhagddo a'r addasiadau o ganlyniad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ym mis Medi 2017.

Codwyd ymholiad ynghylch rhwymedigaethau pensiwn a'r strategaeth wrth wraidd y rhestr taliadau, ac fe wnaeth yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Perfformiad a Llywodraethu addo y byddai'n ymateb i'r Aelod dan sylw pan fyddai wedi cael y cwestiynau penodol ynghylch y mater hwn.

Gofynnwyd am eglurhad o'r ffigurau sydd wedi'u cynnwys yn y Datganiadau Ariannol fel y maent yn ymwneud â thâl uwch swyddogion. Cadarnhawyd bod y dyfarniad cyflog cenedlaethol wedi rhoi cynnydd o 1% ar gyfer 2016/17 a bod y wybodaeth a ddarparwyd hefyd yn cynnwys codiadau cyflog cynyddrannol yn y graddfeydd cyflog penodol sydd wedi'u henwi.

Hefyd, gofynnwyd am fanylion am gostau diswyddo a nifer y staff a nodwyd yn yr adroddiad. Dywedodd Mr Harris y byddai'n holi ac yn ymateb yn briodol i'r Aelod.

Yn sgil ystyried yr adroddiad, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD cymeradwyo Datganiadau Ariannol archwiliedig terfynol 2016/17.

Roedd Aelodau'n dymuno bod eu gwerthfawrogiad i bawb a fu ynghlwm wrth baratoi Datganiadau Ariannol 2016/17 yn cael ei gofnodi.

**5. BARGEN DDINESIG PRIFDDINAS RANBARTH CAERDYDD – SEFYDLU CWMNI CYFRWNG AT DDIBENION ARBENNIG AR GYFER PROSIECT LLED-DDARGLUDYDDION CYFANSAWDD**

Rhoddodd y Prif Weithredwr Interim drosolwg o'r adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyo rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Arweinydd gymeradwyo i'r Cyngor ddod yn gyfranddaliwr cwmni cyfyngedig trwy gyfranddaliadau, a fydd yn berchen ar eiddo a fydd yn gartref i brosiect y Ganolfan Lled-ddargludyddion Cyfansawdd, yr oedd Cabinet ar y Cyd y Fargen Ddinesig wedi cytuno arno'n ddiweddar, ac i lofnodi pob dogfen berthnasol ar ran y Cyngor a phenodi Aelod i'r Bwrdd.

Lansiwyd Bargen Ddinesig Prifddinas Ranbarth Caerdydd yn ffurfiol ar 1 Mawrth 2017 a, gyda chymeradwyaeth y Cyngor, ymunodd yr Awdurdod hwn â'r naw awdurdod arall yn y rhanbarth i ffurfio Cabinet ar y Cyd i oruchwylio a rheoli'r trefniant cydweithredol hwn. Esboniwyd bod y Fargen Ddinesig yn cynnwys buddsoddiad o £1.2 biliwn, gan gynnwys datblygu metro de Cymru; cymorth ar gyfer arloesi a seilwaith digidol; datblygu sgiliau a helpu pobl i fynd yn ôl i'r gwaith; hybu menter a thwf busnes; a gweithgarwch ehangach o ran adfywio a thai. Gobeithir y gall helpu i ddarparu 25,000 o swyddi newydd yn y rhanbarth a denu hyd at £4 biliwn o fuddsoddiad sector preifat.

Mae'r Fframwaith Sicrwydd yn amlinellu'r broses a'r penderfyniadau sy'n ofynnol ar gyfer cymeradwyo'r rhaglen a phrosiectau cyffredinol, sy'n cynnwys y meini prawf arfarnu ar gyfer prosiectau a gyflwynir. Nodwyd mai megis dechrau datblygu y mae'r Fargen Ddinesig ac oherwydd ei bod yn Fargen am gyfnod o 20 mlynedd, mae'n bosibl na chaiff rhai penderfyniadau ynghylch y Gronfa Fuddsoddi eu gwneud am nifer o flynyddoedd a chaiff prosiectau eu datblygu yn unol â'r themâu rhagnodedig. Mae angen cymeradwyaeth pob un o'r deg awdurdod lleol ar y cynllun busnes sy'n amlinellu blaenoriaethau buddsoddi cyffredinol y Fargen Ddinesig, a disgwylir iddo ddod gerbron y Cyngor yn nes ymlaen yn y flwyddyn. Yr eithriad i hyn yw'r £50 miliwn cyntaf o arian y trysorlys, sy'n gallu cael ei fuddsoddi dros y 12 mis nesaf, cyn cytuno ar y cynllun busnes hwnnw.

Cytunodd y Cyngor, ynghyd â'r naw awdurdod arall, ar Gytundeb Cydweithio sy'n darparu ar gyfer buddsoddi cyfraniad cychwynnol o £50 miliwn gan Drysorlys y Deyrnas Unedig, ond mae'n atal unrhyw fuddsoddiad pellach hyd nes bod y Cabinet ar y Cyd wedi cytuno ar Gynllun Busnes manwl yn amlinellu blaenoriaethau buddsoddi cyffredinol y Fargen Ddinesig a'i fod wedi'i gyflwyno i bob awdurdod ei gymeradwyo, fel yr amlinellwyd eisoes.

A chyfeirio at gynnwys yr adroddiad, dywedodd Mr Burns mai'r prosiect cyntaf i'w gymeradwyo gan y Cabinet ar y Cyd, wedi ariannu'n bennaf o gyfraniad cychwynnol y

Trysorlys o £50 miliwn at y Fargen Ddinesig, yw Canolfan Lled-ddargludyddion Cyfansawdd yng Nghasnewydd, gerllaw Cyffordd 28 yr M4. Bwriedir i'r prosiect hwn osod Prifddinas Ranbarth Caerdydd ar flaen y dechnoleg hon sy'n datblygu'n gyflym. Yn ogystal â'r potensial i greu cannoedd o swyddi'n uniongyrchol yn y ffatri, y bwriad yw adeiladu ar gryfderau presennol y rhanbarth i ddatblygu clwstwr o arbenigedd â chydnabyddiaeth fyd-eang iddo yn y sector, a allai arwain at lawer mwy o swyddi gydag amser. Hefyd, mae ganddo'r potensial i ddenu £375 miliwn o fuddsoddiad sector preifat.

Cadarnhawyd y byddai'r buddsoddiad yn y gwaith o adnewyddu a dodrefnu'r cyfleuster yn cael ei ariannu trwy'r cyfraniad cychwynnol o £50 miliwn gan Drysorlys y DU at y Fargen Ddinesig; cytunodd y deg awdurdod mai £50 miliwn fyddai'r uchafswm cychwynnol ar fuddsoddi hyd nes datblygu a chytuno ar Gynllun Busnes ar gyfer gweddill y gronfa fuddsoddi.

Gan nad yw'r Cabinet ar y Cyd a sefydlwyd gan y deg awdurdod lleol yn endid cyfreithiol ynddo'i hun ac ni all fod yn berchen ar eiddo, yn sgil ystyried arfarniadau manwl o opsiynau a luniwyd gan gynghorwyr cyfreithiol annibynnol, cytunodd y Cabinet ar y Cyd ffurfio cwmni ar wahân. Bwriedir trosglwyddo perchenogaeth ar y safle i 'gyfrwng at ddibenion arbennig', i fod yn berchen ar y cyfleuster a'i reoli. Bydd hwn ar ffurf cwmni cyfyngedig newydd y mae'r deg awdurdod lleol yn berchen arno ar y cyd, bob un ohonynt â chyfranddaliad cyfartal gwerth £1 yn y cwmni. Bydd hawl gan bob Cyngor enwebu Cyfarwyddwr y cwmni a bydd hawliau pleidleisio cyfartal gan bob un ohonynt.

Rhoddwyd gwybod am ymrwymiad a wnaed i roi'r newyddion diweddaraf i Aelodau am brosiectau sy'n cael eu cynnig a nodwyd bod y cynllun busnes wrthi'n cael ei baratoi, yn amlinellu cynnig ar gyfer y fwrdeistref sirol, ac y bydd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ei ystyried maes o law.

Cyfeiriwyd at y rhwymedigaethau a all fod yn gysylltiedig â'r prosiect hwn a chynghorodd Mr Burns fod risgiau ynghlwm wrth fuddsoddiad ar y raddfa hon, yn yr un modd ag unrhyw fenter o'r natur hon. Mae'r Cabinet ar y Cyd wedi cynnal ymchwiliadau 'diwydrwydd dyladwy' helaeth i gadernid y tenant a'r farchnad y mae'n gweithredu ynddi, ac mae wedi penderfynu buddsoddi ar y sail hon. Mae trefniadau cyfreithiol a threfniadau llywodraethu llym ar waith trwy'r Cytundeb Cydweithio, y Fframwaith Sicrwydd a'r Cynllun Gweithredu. O ran lleoliad y ffatri, dywedodd Mr Burns nad oedd y fwrdeistref sirol yn gallu bodloni gofynion y prosiectau ar yr achlysur hwn.

Cyfeiriwyd at fanteision y Fargen Ddinesig a'r cyfle i fwrw golwg ar brosiectau newydd a mentrau newydd wrth symud ymlaen. Nodwyd mai cyfrifoldeb yr awdurdod fyddai penderfynu ymhle y dylai buddsoddi ddigwydd yn y fwrdeistref, datblygu achosion busnes a chyflwyno cynigion i'w hystyried yn unol â hynny.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Trwy godi dwylo (a nodi bod 1 bleidlais wedi'i hymatal), cytunodd y mwyafrif a oedd yn bresennol ar hyn.

PENDERFYNWYD:-

(i) bod Arweinydd y Cyngor neu ei ddirprwy enwebedig yn cael awdurdod dirprwyedig i:-

   (i) gytuno bod y Cyngor yn dod yn gyfranddaliwr Cwmni Cyfrwng at Ddibenion Arbennig, Cyfyngedig trwy gyfranddaliadau, i gyflwyno'r prosiect hwn – CSC Foundry Limited - 'Ffowndri LDC Cyf';

   (ii) llofnodi'r dogfennau angenrheidiol er mwyn sefydlu'r cwmni;

   (iii) penodi Cyfarwyddwr i fod yn aelod o fwrdd cwmni newydd.

(ii) bod y Swyddog Monitro'n cael yr awdurdod i wneud unrhyw newidiadau gofynnol i Gyfansoddiad y Cyngor o ganlyniad i'r uchod.

## 6. TREFNIADAU CONTRACT Y PRIF WEITHREDWR INTERIM A PHARHAD TREFNIADAU RHEOLI MEWNOL

Fe wnaeth Chris Burns, Nicole Scammel a Gail Williams ddatgan diddordeb (gan mai nhw yw testun yr adroddiad) a gwnaethant adael y cyfarfod tra cafodd yr eitem hon ei hystyried.

Rhoddodd Dave Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol) drosolwg o'r adroddiad, a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i ymestyn y trefniadau contract ar gyfer swydd y Prif Weithredwr Interim er mwyn cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol. Hefyd, roedd yn ceisio cymeradwyaeth i ddirprwyo ymestyn contractau'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Interim a'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol/Swyddog Monitro Interim i'r Prif Weithredwr Interim.

Atgoffwyd Aelodau am y trefniadau interim presennol sydd ar waith yn yr Awdurdod ers gwahardd tri Uwch Swyddog yn wreiddiol. Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol bod Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig mewn swydd yn y Cyngor, rôl sydd wedi'i neilltuo i'r Prif Weithredwr. Ar 22ain Gorffennaf 2014, fe wnaeth y Cyngor benodi Mr Chris Burns i swydd y Prif Weithredwr Interim ac, ar 9fed Mehefin 2015, cytunodd y Cyngor i ymestyn y contract ymhellach am gyfnod o 12 mis, yn weithredol o 1af Medi 2015. Eto, ar 19eg Ebrill 2016, cytunodd y Cyngor i ymestyn y contract hwn am gyfnod pellach o 12 mis, yn weithredol o 1af Medi 2016.

Yn sgil gollwng yr Achos Troseddol, mae'r Awdurdod bellach yn bwrw ymlaen ag ymchwiliadau mewnol yn unol â gweithdrefnau cymeradwy'r cyngor a gofynion statudol. Yn ei gyfarfod ar 10fed Mawrth 2017, penderfynodd y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu fod honiadau'n bodoli yr oedd angen ymchwilio'n ffurfiol iddynt ac y dylid cyfeirio'r mater at Berson Annibynnol Dynodedig i gynnal ymchwiliad cynhwysfawr yn unol â'r Camau Disgyblu ar gyfer Swyddogion Statudol. Mae cynghorwyr cyfreithiol y Cyngor, sydd wedi ymwneud â phrosesau o'r fath o'r blaen, wedi awgrymu y bydd y broses yn cymryd o leiaf 100 niwrnod. O ganlyniad mae angen ystyried contract y Prif Weithredwr Interim presennol a ph'un a ddylid ymestyn y contract hwn y tu hwnt i 31ain Awst 2017 ai peidio.

Os bydd y Cyngor yn cytuno i ymestyn y contract cyfnod penodol, cynghorodd Mr Street y bydd y Prif Weithredwr Interim yn cael ei gyflogi yn unol â'r cyflog a'r telerau ac amodau cytunedig a gyhoeddir yn Natganiad Polisi Tâl y Cyngor. Mae Llywodraeth Cymru wedi cael gwybod bod y Cyngor wedi cael cais i ystyried estyniad i'r penodiad interim hwn ac mae wedi cadarnhau ei bod yn fodlon â'r cynnig.

O ran y goblygiadau ariannol, mae cyllidebau refeniw wedi'u sefydlu ar gyfer swyddi'r Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol/Swyddog Monitro. Caiff deiliaid swydd sy'n cyflawni'r dyletswyddau hyn ar hyn o bryd eu hariannu o'r cyllidebau refeniw hyn. Mae costau ychwanegol sydd ynghlwm wrth y tri Uwch Swyddog wedi'u hariannu o ddarpariaeth a sefydlwyd gan ddefnyddio arian wrth gefn y Gronfa Gyffredinol, fel y cymeradwywyd gan y Cyngor. Paratoir adroddiad pellach i'r Cyngor os bydd angen cyllid ychwanegol ar y ddarpariaeth hon.

Gofynnwyd y byddai unrhyw benderfyniad a wneir gan y Prif Weithredwr Interim yn cael ei wneud gyda'r Aelod Cabinet perthnasol a rhoddodd y Cyfarwyddwr sicrwydd mai dyma fyddai'n digwydd.

Yn sgil ystyried yr adroddiad, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Trwy godi dwylo (a nodi bod 2 bleidlais wedi'u hymatal), cytunodd y

mwyafrif a oedd yn bresennol ar hyn.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a amlinellir yn yr adroddiad:-

(i) fod contract y Prif Weithredwr Interim presennol yn cael ei ymestyn tan 31ain Rhagfyr 2017;

(ii) yn weithredol o 1af Medi 2017, fod y trefniant tymor penodol hwn yn destun mis o rybudd gan y naill a'r llall;

(iii) bod y penderfyniad i ymestyn contractau'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Interim a'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol/Swyddog Monitro Interim presennol fel y bo'n briodol yn cael ei ddirprwyo i'r Prif Weithredwr Interim.

Terfynwyd y cyfarfod am 5.45pm

Cymeradwydwyd eu bod yn gofnod cywir yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau neu gywiriadau y cytunwyd arnynt ac y'u cofnodwyd yng nghofnodion y cyfarfod ar 10fed Hydref 2017, a'u llofnodi gan y Maer.

__________________________

MAER